

**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.**

**WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 23.10.20**

Mae'r hanner tymor wedi diflannu heibio, a braf yw cael dweud eto yr wythnos yma fod popeth yn parhau i fynd yn hwylus iawn yn yr ysgol, ac mae'r diolch am hynny i gyfraniad pob un aelod o gymuned a theulu Ysgol Glanrafon.

*The half term has just flown by, and it's so pleasing to note again this week that everything continues to run smoothly here in school, and the gratitude for this goes to the contribution of every member of Ysgol Glanrafon's community and family.*

**YMWELIAD P.C.MARC JONES' VISIT.**

Bu P.C. Marc Jones yma'r wythnos hon yn cyflwyno ei sgysiau tymhorol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddydd Llun a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y bore 'ma. Y thema ar gyfer ei sgysiau y tro hwn oedd Diogelwch y Rhyngwyd.

*P.C. Marc Jones visited the school this week presenting his termly addresses for Years 3 and 4 pupils on Monday and Years 5 and 6 pupils this morning. The theme for his addresses this time was Internet Safety.*

**GWAITH ADEILADU – BUILDING WORK.**

Bydd peth gwaith yn dechrau fel paratoad ar gyfer yr estyniad yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y gwyliau hanner tymor. Unwaith y bydd dyddiad wedi'i dderbyn ar gyfer pryd y bydd y gwaith yn dechrau go iawn, byddaf yn eich hysbysu ac yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer rhai newidiadau fydd yna i'r trefniadau arferol yn ystod y cyfnod hwnnw. Adeiladu'r darn newydd fydd yn cynnwys chwech stafell ddosbarth newydd, fydd yn cymryd lle i ddechrau.

*Some work will be done in preparation for the building of the extension during the half term holiday. Once the commencement date has been received for the building work, I will inform you and present further information regarding some changes to the usual arrangements that will be in place during that time. The work will commence with the building of the extension which will house six new classrooms.*

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH RHITHIOL – VIRTUAL HARVEST THANKSGIVING SERVICE.**

Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch rhithiol ysgol gyfan hyfryd iawn bnawn Mercher ar y thema Diolch, a rhoddwyd anerchiad arbennig gan y Parch Nan Powell Davies. Llwyddwyd i greu naws ac awyrgylch arbennig iawn drwy'r ysgol yn ystod y gwasanaeth.

*A lovely virtual harvest thanksgiving service was held on Wednesday afternoon for all the school's pupils based on the word Thanks, and an address was relayed to everyone by the Rev. Nan Powell Davies. A wonderful atmosphere was created throughout the school during the service.*

### **IMIWNEIDDIO RHAG Y FFLIW – FLU IMMUNISATION.**

Rhaid canmol pa mor rwydd a di ffwdan yr aeth y broses o imiwneiddio'r disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 gyda chwistrelliad trwyn yn ystod bore ddoe. Llwyddwyd i gwblhau y gwaith yn sydyn ac effeithiol iawn a diolchir i'r tîm meddygol am hynny.

*It must be noted how well the process of immunising Reception to Year 6 pupils with the nasal spray went yesterday morning. The work was completed effectively and swiftly and the medical team is thanked for this.*

### **LLINELLAU ZIG ZAG LINES.**

Am resymau diogelwch amlwg, nid arhosfan na maes parcio yw'r llinellau zig zag tu allan i gatiâu'r ysgol ac NID YDYNT i'w defnyddio i'r pwrpas hwnnw. Felly, sicrhewch os gwelwch yn dda nad oes neb yn parcio arnynt ar ddechrau na diwedd y dydd.

*For obvious safety reasons, the zig zag lines on the road near to the school gates are not a lay by or car park, and they ARE NOT to be used for that purpose. Therefore please ensure that no-one parks on them at the beginning or end of the school day.*

### **DIWRNOD LLIWIAU'R HYDREF – AUTUMN COLOURS DAY.**

Roedd liwiau hyfryd yr Hydref yn werth eu gweld yn yr ysgol heddiw gyda'r disgyblion wedi'u gwisgo'n addas yn y lliwiau hynny. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth, a da yw cael dweud ein bod wedi llwyddo i gasglu y swm o £300 tuag at Gymdeithas Chwilio ac Achub Gogledd Ddwyrain Cymru.

*Autumn colours were a wonderful site in school today with the pupils appropriately dressed in clothes in those colours. Everyone is thanked for their support and it's so good to be able to say that the sum of £300 was raised towards the North East Wales Search and Rescue Society.*

### **GWYLIAU HANNER TYMOR – HALF TERM HOLIDAY.**

Gobeithio y caiff pawb gyfle i ymlacio a gorffwyso dros y gwyliau hanner tymor sy'n dechrau heddiw. Bydd yr ysgol yn ail ddechrau eto **ddydd Llun, Tachwedd 2il** ac edrychir ymlaen yn fawr at weld pawb bryd hynny. Roeddem yn hapus iawn i ddeall bod ysgolion cynradd yn cael ail - agor ar ôl y gwyliau hanner tymor yma yng Nghymru.

*It is hoped that everyone will have an opportunity to relax and rest during the half term holiday which starts today. School will re-open again on **Monday, November 2<sup>nd</sup>**, and we shall look forward to seeing everyone on that day. We were very pleased to learn that primary schools will be re-opening following the half term holiday.*

**CADWCH YN IACH A DIOGEL BAWB – KEEP SAFE AND WELL EVERYONE!**